

Newidiadau arfaethedig i batrymau shifft gweithwyr

Tachwedd 2018



Yn ystod y gwaith o adeiladu Gorsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd, bydd angen i weithwyr wneud shifftiau dydd a shifftiau nos er mwyn cyflawni rhaglen adeiladu'r Prosiect. Rydym yn cynnig rhai newidiadau i batrymau shifft y gweithwyr i wneud y rhaglen yn gryfach ac yn fwy effeithlon.

Y Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu

Ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom ni gyflwyno ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i adeiladu ac i weithredu Wylfa Newydd. Mae'r patrymau shifft a ragdybiwyd yn y cais yn golygu tair shifft yn dechrau ar dri amser gwahanol yn ystod y dydd ac yn ystod y nos. Dewiswyd y rhain i osgoi cynyddu'r traffig ar Bont Britannia yn ystod y cyfnodau prysuraf yn y bore a gyda'r nos.

Y newidiadau arfaethedig

Ers hynny, mae gwaith pellach wedi dangos bod amseru'r shifftiau fel hyn yn achosi gorgyffwrdd rhwng shifftiau'r dydd a shifftiau'r nos, sy'n gwneud rhan o bob shifft yn anghynhyrchiol gan greu her sylweddol i'r rhaglen adeiladu.

Rydym am wneud y rhaglen adeiladu yn fwy effeithlon ac yn gryfach drwy addasu'r patrymau shifft ond gan barhau i osgoi effeithiau niweidiol ar Bont Britannia. Rydym wedi nodi patrymau shifft newydd sy'n cyflawni'r amcanion hyn, fel a ganlyn:

- ym mlynnyddoedd cynnar y gwaith adeiladu, dwy shifft yn dechrau ar amseroedd gwahanol yn y dydd ac un shifft nos
- dros flynyddoedd y prif waith adeiladu, tair shifft yn dechrau ar amseroedd gwahanol yn y dydd a dwy shifft yn dechrau ar amseroedd gwahanol yn y nos
- newidiadau i amseroedd cychwyn y shifftiau, ac i'w hyd

Caiff y newidiadau eu hegluro'n fanylach yn y ddogfen dechnegol sydd ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Rydym yn croesawu eich safbwyntiau

Os oes gennych chi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig hyn, gallwch roi adborth i ni erbyn 6 Rhagfyr 2018 drwy anfon neges e-bost atom yn [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:yhmoliadauwylfa@horizonnuclearpower.com) neu drwy ysgrifennu atom am ddim yn Rhadbost WYLFA NEWYDD. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ffoniwch ni ar 0800 954 9516.

I gael rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan www.horizonnuclearpower.com/ymgyngghoriad lle gallwch chi weld copi o'r ddogfen dechnegol ar gyfer y newid arfaethedig hwn. Gallwch ddod o hyd i fanylion y cynigion gwreiddiol yn ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, atodiad C2-4 (Asesiad Cludiant ar gyfer y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu) o'r Datganiad Amgylcheddol (APP-101), tabl 1-1.